

Ebrill 2026

# Cwynion morgais gwaddol

Camau i'w cymryd os credwch y camwerthwyd morgais gwaddol i chi

- Beth allwch gwyno amdano
- Terfynau amser
- Sut y cyfrifir iawndal

Helpwr Arian

Llywodraeth y DU

**Wrthi'n eich helpu i reoli eich arian heddiw ac ar gyfer y dyfodol**

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gefnogaeth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, tor-perthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: **moneyhelper.org.uk/cy**

**Canllawiau diduedd am ddim**
ar-lein | dros y ffôn

Gan y
Gwasanaeth Arian a Phensiynau

# Yma i'ch helpu

**Mae'r canllaw hwn i chi os ydych am wneud cwyn am y ffordd y gwerthwyd morgais gwaddol i chi.**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Y pethau cyntaf i'w gwneud | 2 |
| Adolygwch eich morgais gwaddol | 4 |
| Gwneud cwyn | 5 |
| Iawndal am hawliadau dilys | 9 |
| Ceisiwch gyngor a chysylltiadau defnyddiol eraill | 13 |


Mae terfynau amser ar gŵynion am forgeisi gwaddol a gamwerthwyd, felly gweithredwch yn gyflym.

# Y pethau cyntaf i'w gwneud

## Dechrau arni

Os credwch y camwerthwyd morgais gwaddol i chi, efallai y gallech wneud cwyn ac ennill iawndal. Mae'n bwysig gweithredu nawr, gan y bydd gennych amser cyfyngedig i gychwyn y broses.

**1. Adolygwch eich morgais gwaddol** Darllenwch y llythyrau ail-ragamcanu gan ddarparwr eich polisi gwaddol a chymerwch gamau os oes angen (gweler t4).

**2. Cyfrifwch a oes gennych resymau i gwyno**Mae angen i chi ddangos bod gennych reswm i gwyno a'ch bod wedi colli allan yn ariannol cyn y gallwch gael iawndal. Dysgwch beth allai fod yn gŵyn ddilys ar dudalen 5.

**3. Gweihrewch yn gyflym**
Gallai terfynau amser fod yn gymwys i'ch sefyllfa. Os cwynwch ar ôl y terfynau amser hyn, gall cwmni wrthod eich cwyn. Gweler rhagor ar dudalen 7.


**4. Ceisiwch gyngor nawr os ydych chi'n wynebu diffyg.**Po hiraf y byddwch chi'n aros, yr uchaf fydd y gost.

Dysgwch fwy am sut i ddelio â diffyg gwaddol yn **moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/dealing-with-an-endowment-shortfall**

Gwnewch yn siŵr nad ydych yn cyfnewid eich polisi am arian nac yn atal eich taliadau heb gymryd cyngor ariannol proffesiynol. Gallech fod ar eich colled os gwnewch hyn.

## Cyngor ymarferol

- Dewch o hyd i unrhyw waith papur a roddwyd i chi pan brynoch y polisi gwaddol, a meddyliwch yn ôl i beth y dywedwyd wrthych ar y pryd.
- Os penderfynwch wneud cwyn, cadwch gopïau o unrhyw lythyrau a nodiadau am alwadau ffôn. Anfonwch gopïau o ddogfennau, ond cadwch y rhai gwreiddiol bob amser
- Os nad ydych wedi colli allan ond rydych yn anfodlon o hyd ar risgiau polisi gwaddol, efallai y gallech newid i forgais ad-dalu. Cysylltu â'ch darparwr morgais.
- Darganfyddwch faint fyddai eich ad-daliadau misol petaech yn newid eich morgais. Defnyddiwch ein **cyfrifiannell morgais** yn **moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/mortgage-calculator**



Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) yn rheoleiddio cwmnïau sy'n gwerthu polisïau gwaddol, ac mae rheolau ar waith sy'n golygu bod rhaid iddynt ddelio â'ch cwyn yn deg.

# Adolygwch eich morgais gwaddol

**Os cymeroch forgais llog yn unig, efallai y gwerthwyd polisi gwaddol i chi. Gelwir y cyfuniad yn forgais gwaddol.**

Mae polisi gwaddol yn buddsoddi'ch arian, gyda'r nod o wneud iddo dyfu digon i dalu'r benthyciad gwreiddiol ar ddiwedd cyfnod y morgais.

Am y gall y twf ar fuddsoddiadau amrywio, fel arfer nid oes gwarant y bydd y polisi yn tyfu digon i ad-dalu'r morgais ar ddiwedd y cyfnod.

Os nad ydych yn siŵr a oes gennych forgais gwaddol, gwiriwch eich datganiad morgais neu cysylltwch â'ch rhoddwr benthyciadau.

## Llythyrau diffyg gwaddol

Dylech fod wedi derbyn llythyrau gyda'ch datganiad polisi gwaddol blynyddol yn dweud wrthych a yw eich polisi ar y trywydd iawn i ad-dalu'ch morgais. Gelwir y rhain yn **llythrennau ail-amcanestyniad**. Bydd y llythyr yn dweud wrthych:

- swm unrhyw ddiffyg disgwyliedig/tebygol
- yr opsiynau sydd gennych
- pa gamau sydd angen i chi eu cymryd.

Os nad ydych wedi derbyn llythyr ail-amcanestyniad, gofynnwch i ddarparwr eich polisi am un. Darllenwch ef, a gweithredu os oes angen.

# Gwneud cwyn

**Mae gwneud cwyn yn hawdd, ac am ddim.**

Os ydych chi eisiau gwneud cwyn, **gwnewch hynny nawr** gan fod terfynau amser.

Mae fel arfer yn well gwneud cwyn yn ysgrifenedig. Os ydych yn ffonio, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw nodiadau manwl o'ch sgwrs, gan gynnwys enw'r person rydych wedi siarad â nhw, a'r dyddiad a'r amser y ffonioch.

Cyn y gallwch gael iawndal, mae angen i chi ddangos bod gennych sail i wneud cwyn, a'ch bod wedi colli yn ariannol o ganlyniad.

## Terfynau amser ar gŵynion

Mae terfynau amser ar gŵynion. Os cwynwch ar ôl y terfynau amser hyn, gall cwmni wrthod eich cwyn am ei bod y tu hwnt i'r amser – a adnabyddir fel **'rhwystro-amser'**. Gall hefyd ofyn i'r Ombwdsmon wrthod y gŵyn.

Er enghraifft, gall eich cwyn gael ei gwrthod os:

- derbynioch lythyr sy'n rhybuddio bod risg uchel o ddiffyg, yna rydych yn derbyn llythyr sy'n rhoi o leiaf chwe mis o rybudd o 'ddyddiad terfynol' a bydd raid i chi anfon cwyn erbyn y dyddiad hwnnw; a
- mae'r 'dyddiad terfynol' hwnnw o leiaf dair blynedd ar ôl y dyddiad y derbynioch y llythyr cyntaf ac o leiaf chwe blynedd ers i chi brynu'r polisi; ond rydych yn gwneud cwyn wedi'r 'dyddiad terfynol'.

Gweler **moneyhelper.org.uk/cy/homes/buying-a-home/dealing-with-an-endowment-shortfall** am ragor o wybodaeth.

## Pryd y gallwch gwyno

### Efallai y gallech gwyno os na wnaeth eich cynghorydd:

- dweud wrthych sut y byddai'ch arian yn cael ei fuddsoddi ac esbonio'r risgiau
- esbonio bod polisi gwaddol yn ymrwymiad hirdymor, ac na fyddwch yn cael llawer o arian os rowch terfyn arno yn gynnar
- gwirio eich bod yn gyfforddus gyda'r risgiau o gysylltu eich arian â pherfformiad buddsoddi, gan gynnwys y farchnad stoc
- gwirio a oedd yn debygol y gallech gadw i fyny â'r taliadau tan ddiwedd y morgais
- esbonio unrhyw ffioedd a thaliadau, a sut y byddent yn effeithio ar yr elw ar eich cynilion.

### Gallech hefyd gwyno os:

- bydd eich polisi gwaddol yn dod i ben ar ôl i chi ymddeol, ac ni wnaeth y cynghorydd wirio a fyddech yn debygol o allu fforddio talu'r premiymau ar ôl i chi ymddeol
- cawsoch eich cynghori i ganslo un polisi gwaddol a chymryd un arall (mae polisi gwaddol yn fuddsoddiad hirdymor, ac na fyddwch yn cael llawer o arian os rowch terfyn arno yn gynnar)
- mae eich polisi gwaddol yn parhau wedi i'r cyfnod pan fydd disgwyl i'ch morgais ddod i ben

- cawsoch sicrwydd y byddai'r polisi gwaddol yn clirio'ch morgais – ond dim ond os gallwch ddangos y dywedwyd wrthych y byddai'r polisi gwaddol yn sicr o glirio'ch morgais, a bod hyn yn rhan o'r contract cyfreithiol rhyngoch chi a'r cwmni. Mae hyn debygol o fod yn anarferol.

### Sut i wneud cwyn

1. Ceisiwch ddod o hyd i'r holl waith papur sy'n ymwneud â phrynu eich polisi ac unrhyw nodiadau a wnaethoch ar y pryd. Mae gennych hawl i gael copïau o'r papurau gwerthu gan y cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi.
2. Cwynwch wrth y cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi. Gallai hwn fod yn gynghorydd ariannol, darparwr y polisi neu'ch benthyciwr morgais. Os na allwch gofio pwy oedd ef neu os yw'r cwmni a ddefnyddiwyd gennych wedi cael ei gymryd drosodd, gwiriwch gyda'r cwmni gwaddol gan y bydd ganddyn nhw'r manylion sydd eu hangen arnoch chi.

**Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol**

Cysylltwch â'r Ombwdsmon am ragor o gymorth ar **0800 023 4567**, neu ewch i **financial-ombudsman.org.uk**

Hyd yn oed os yw'r cwmni'n gwrthod eich cwyn fel un sydd allan o amser, gallwch fynd at yr Ombwdsmon o hyd os ydych chi'n meddwl:

- mae amgylchiadau eithriadol, neu
- cafodd y terfyn amser ei gymhwyso'n anghywir.

3. Rhaid bod gan gwmnïau weithdrefn gwyno ffurfiol, a rhaid iddynt ddweud wrthych sut i'w defnyddio. Efallai y bydd y cwmni'n anfon holiadur atoch i'w lenwi a'i ddychwelyd ato. Llenwch hwn orau y gallwch, oherwydd bydd yn cyflymu'r broses.
4. Dylech gael ymateb gan y cwmni o fewn wyth wythnos o'r dyddiad maent yn derbyn eich cwyn.
5. Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad y cwmni, neu os nad ydynt wedi gallu datrys eich cwyn o fewn wyth wythnos, gallech gyflwyno'ch cwyn i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol (FOS). Dylech wneud hyn o fewn chwe mis i'r cwmni anfon llythyr 'ymateb terfynol' atoch. Mae'r gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio.
6. Gallwch ddewis derbyn penderfyniad yr Ombwdsmon ai peidio.
   Os derbyniwch y penderfyniad, mae'r penderfyniad yn rhwymol i chi a'r cwmni, ac ni allwch gymryd camau pellach. Os na fyddwch yn derbyn y penderfyniad, gallwch fynd â'ch achos i'r llys. Bydd taliad am wneud hyn, yn dibynnu ar beth yw eich cais. Mae terfynau amser am weithredu yn gymwys.

## Gwneud cwyn os…

### Cymeroch eich polisi cyn 29 Ebrill 1988.

Ni chafodd gwerthu a rhoi cyngor am bolisïau gwaddol ei reoleiddio tan 29 Ebrill 1988. Cytunodd rhai darparwyr gwaddol yn wirfoddol i ganiatáu i'r FOS edrych ar gŵynion cyn y dyddiad hwn. Gallwch gysylltu â'r FOS i wirio a yw'r cwmni rydych chi'n cwyno iddynt wedi cytuno i'r trefniadau gwirfoddol.

- **Os yw'r darparwr neu'r ymgynghorydd wedi cytuno i'r trefniadau gwirfoddol.** Dylent bob amser drin eich cwyn yn unol â rheolau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), sy'n nodi bod rhaid iddynt drin y gŵyn yn deg. Mae'r rhain yn cynnwys dweud wrthych pryd y gallwch atgyfeirio'ch cwyn at y FOS.
- **Os na wnaeth y cwmni cytuno i'r trefniadau gwirfoddol.** Gallwch barhau i gwyno i'r darparwr neu'r cynghorydd, ond nid oes angen iddynt ddilyn rheolau'r FCA bob tro. Mae hyn hefyd yn golygu, os na allwch chi ddatrys eich cwyn gyda'r cwmni, ni fyddwch yn gallu mynd â'ch cwyn i'r FOS.

### Fe'ch cynghorwyd cyn 29 Ebrill 1988, ond cymeroch y polisi ar ôl y dyddiad hwnnw.

Efallai y gallech atgyfeirio'ch cwyn at yr Ombwdsmon o hyd, hyd yn oed os na wnaeth y cwmni gytuno i'r trefniadau gwirfoddol. Gwiriwch gyda'r FOS os nad ydych yn siŵr.

### Prynoch chi'ch polisi ar ôl cael cyngor gan gyfreithiwr.

Cwynwch i'r cyfreithiwr yn gyntaf. Os nad ydych yn hapus â'u penderfyniad, a gwnaethoch brynu eich polisi **cyn 1 Rhagfyr 2001**, ewch â'ch cwyn drwy'r cynllun cwyno perthnasol, yn dibynnu ar ble'r ydych yn byw.

- Ombwdsmon Cyfreithiol Cymru a Lloegr
- Comisiwn Cwynion Cyfreithiol yr Alban
- Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon.

Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 13.

Os prynoch chi eich polisi gwaddol ar gyngor gan gyfreithiwr **ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2001**, dylech chi ddilyn y weithdrefn gwyno arferol (gweler t5).

Os yw eich cyfreithiwr wedi stopio masnachu, cysylltwch â'r gymdeithas y gyfraith berthnasol. Gweler *Cysylltiadau defnyddiol* ar dudalen 13.

### Nid oes angen i chi ddefnyddio cwmni rheoli hawliadau

Nid yw defnyddio'r cwmnïau hyn yn gwella eich tebygolrwydd o lwyddo gyda'ch hawliad neu gael iawndal – a byddant yn codi ffi. Mae'r ffi llwyddiant fel arfer yn gyfran benodol o unrhyw iawndal y byddech chi'n cael ei dalu a gall fod yn gannoedd neu hyd yn oed filoedd o bunnoedd. Os ydych yn talu ffi llwyddiant, dyma arian na allwch ei ddefnyddio tuag at dalu eich morgais. Rhaid i gwmnïau ariannol drin cwynion mewn ffordd sy'n trin cwsmeriaid yn deg yn unol â rheolau a nodir gan yr FCA, sy'n eu goruchwylio. Os na allwch ddatrys eich cwyn, gall yr Ombwdsmon eich helpu i fynd â phethau ymhellach. Maent yn arbenigwyr annibynnol ac mae eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio.

## Cwyno os ydych wedi ildio eich polisi

Efallai y bydd gennych gŵyn ddilys, a bydd rhywfaint o iawndal yn ddyledus i chi – cyn belled ag y gallwch ddangos na chawsoch eich cynghori'n iawn ar yr adeg y gwerthwyd y polisi gwreiddiol i chi, a'ch bod ar eich colled yn ariannol o ganlyniad.

## Os yw'r cwmni a werthodd y polisi gwaddol i chi wedi stopio masnachu

Os defnyddioch ymgynghorydd ariannol annibynnol, dylai eich cwmni gwaddol gael manylion pwy a'i gwerthodd i chi. Os nad ydych yn siŵr a ywr cwmni'n bodoli o hyd, cysylltwch â llinell gymorth yr FCA ar **0800 111 6768**. Gallwch ddefnyddio gwiriwr cwmni'r FCA yn: **fca.org.uk/firm-checker**

Os na allwch ddod o hyd i'r cwmni oherwydd ei fod wedi stopio masnachu, gallwch gysylltu â'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS) ar **0800 678 1100**
neu yn **fscs.org.uk**

## Os na cholloch arian

Os nad ydych chi wedi colli allan ond yn dal yn anfodlon â risgiau polisi gwaddol, efallai y byddwch chi'n gallu newid i forgais ad-dalu. Os yw'r cwmni a werthodd y polisi wedi cadarnhau eich cwyn, dylai hefyd eich talu am unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â throsglwyddo eich morgais.

Dilynwch y camau ar dudalen 5 i wneud cwyn.

**Pwyntiau allweddol**

- Gwiriwch eich bod wedi derbyn llythyr ail-amcanestyniad yn dweud wrthych ble rydych chi'n sefyll gyda'ch gwaddol. Os nad ydych wedi cael un, gofynnwch i'ch darparwr am gopi.
- Ni fyddwch yn gymwys i gael iawndal os nad ydych wedi colli yn ariannol.
- Os prynoch eich polisi rhwng 29 Ebrill 1988 a 31 Rhagfyr 1994, dylech fod wedi cael manylion polisi o'r enw 'manylion cynnyrch'. Os gwnaethoch ei brynu ar neu ar ôl 1 Ionawr 1995, dylech fod wedi cael dogfen 'Nodweddion Allweddol'.

Efallai y gallech gael iawndal hyd yn oed os ydych wedi rhoi terfyn ar eich polisi gwaddol.

# Iawndal am hawliadau dilys

## Sut mae iawndal yn cael ei gyfrifo

Fel arfer, mae iawndal yn seiliedig ar beth fyddai eich sefyllfa wedi bod nawr pe byddech wedi cymryd morgais ad-dalu yn lle morgais gwaddol. Nid yw'n seiliedig ar yr hyn yr oeddech chi'n disgwyl i'r polisi fod yn werth.

Dylai cwmnïau ddilyn canllawiau'r FCA wrth gyfrifo iawndal. Os nad yw'n glir sut y cyfrifodd y cwmni'r iawndal, neu os ydych chi'n credu y gallai fod camgymeriad, gofynnwch am ddadansoddiad o'r ffigurau.

Bydd y cyfrifiad yn cymharu:

- y llog morgais a phremiymau polisi gwaddol rydych chi wedi'u talu a gwerth ildio cyfredol eich polisi gwaddol morgais, gyda'r
- llog morgais ac ad-daliadau cyfalaf y byddech wedi'u talu ar forgais ad-dalu cyfatebol, a faint o gyfalaf y byddech chi wedi'i dalu oddi ar y morgais.

Mewn rhai achosion, ystyrir ffactorau eraill. Er enghraifft:

- a oedd angen yswiriant bywyd
- a oedd y polisi wedi rhedeg ar ôl eich dyddiad ymddeol ac a ddylai'r cwmni a werthodd y polisi i chi fod wedi rhagweld na fyddech chi wedi gallu ei fforddio ar ôl i chi roi'r gorau i weithio
- y math o bolisi gwaddol.

**Pwyntiau allweddol**

- Nid yw iawndal wedi'i seilio ar beth oeddech chi'n disgwyl fyddai gwerth y polisi.
- Mae'r ffordd y cyfrifir iawndal yn dibynnu ar eich amgylchiadau.
- Os cynigir iawndal i chi yn unol â chanllawiau'r FCA, gallwch gymryd yn ganiataol ei fod yn deg.
- Os yw'r cwmni a werthodd y polisi i chi yn cadarnhau eich cwyn, dylai eich helpu i newid i forgais ad-dalu. Dylent hefyd dalu am unrhyw ffioedd neu dreuliau a godir arnoch am newid eich morgais.

### Os ydych eisoes wedi newid i forgais da-dalu

Fel arfer cyfrifir yr iawndal hyd at y dyddiad y newidioch chi i forgais ad-dalu. Mae hyn oherwydd bod y polisi gwaddol wedi'i gymryd allan yn wreiddiol i ad-dalu morgais.

## Treth ar iawndal

Os yw'r iawndal ond yn eich rhoi'n ôl yn y sefyllfa y byddech wedi bod ynddi petaech wedi cymryd morgais ad-dalu, ni fyddwch fel arfer yn gorfod talu treth arno. Os yw amgylchiadau penodol yr achos yn golygu bod y cyfrifiad iawndal yn cynnwys swm o log ychwanegol, efallai y bydd rhaid i chi dalu treth ar y llog.

Mewn rhai achosion penodol eraill, er enghraifft os caiff y polisi ei werthu, ei ildio neu ei amrywio, arweiniad yr FCA i gwmnïau yw y gallai fod yn briodol iddynt dalu unrhyw dreth bersonol ychwanegol y byddwch yn ei thalu oherwydd yr hawliad iawndal.

Os nad ydych yn siŵr beth yw eich sefyllfa, neu os oes angen help arnoch i gyfrifo faint o dreth y gallai fod rhaid i chi ei thalu, cysylltwch â CThEF.

Ewch i **hmrc.gov.uk** neu ffoniwch rif y llinell gymorth Treth **0300 200 3300**.

Mae polisi gwaddol yn cynnwys yswiriant bywyd i ad-dalu'r morgais os byddwch chi'n marw'n gynnar. Os ydych yn dod â'r polisi gwaddol i ben ac angen yswiriant bywyd, bydd rhaid i chi wneud trefniadau eraill.

Os byddwch yn cael iawndal, dylech chi ystyried ei ddefnyddio i leihau'r swm sy'n ddyledus ar eich morgais.

**Enghraifft o sut y cyfrifir iawndal safonol**

| | |
|---|---|
| **Y morgais gwaddol** | |
| Polisi gwaddol 25 mlynedd, hyd pum mlynedd hyd yma | |
| Y morgais (y swm targed) | £50,000 |
| Diffyg rhagamcanedig | £6,500 |
| Premiwm gwaddol y mis | £75 |
| **Cymhariaeth rhwng gwaddol ac ad-dalu** | |
| Gwerth ildio polisi gwaddol | £3,200 |
| Cyfalaf a fyddai wedi cael ei ad-dalu gyda morgais ad-dalu cyfatebol | £4,200 |
| Gwerth ildio tynnu cyfalaf a ad-dalwyd | **−£1,000** |
| Cost trosi o forgais gwaddol i forgais ad-dalu | **−£200** |
| **Cyfanswm gwariant hyd yn hyn** | |
| Morgais ad-dalu cyfatebol (cyfalaf + llog + yswiriant bywyd cyfnod gostyngol) | £21,950 |
| Morgais gwaddol (premiwm gwaddol + llog) | £22,250 |
| Gwahaniaeth mewn gwariant (ad-dalu heb gynnwys gwaddol) | **−£300** |
| **Sail iawndal** | |
| Colled o werth ildio tynnu cyfalaf a ad-dalwyd | −£1,000 |
| Colled o gyfanswm gwariant ychwanegol o dan forgais gwaddol | −£300 |
| Cost newid i forgais ad-dalu | −£200 |
| **Cyfanswm colledion (felly swm y iawndal sy’n ddyledus)** | **−£1,500** |

**Mae'r enghraifft ar dudalen 11 yn dangos bod yr achwynydd wedi colli allan yn ariannol hyd yma oherwydd:**

- mae gwerth ildio'r gwaddol yn llai na'r cyfalaf a ad-dalwyd
- mae cyfanswm y gwariant o'r morgais gwaddol yn fwy na'r cyfanswm y byddai'r gwariant wedi bod ar forgais ad-dalu cyfatebol.

Mae'r ddwy golled a'r gost o newid i forgais ad-dalu yn cael eu hychwanegu at ei gilydd greu cyfanswm y iawndal.

# Canllawiau ysgrifenedig am ddim










Mae ein canllawiau yn rhoi cyngor a gwybodaeth glir, ddiduedd ar draws ystod o faterion a phynciau ariannol.

**moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

# Ceisiwch gyngor a chysylltiadau defnyddiol eraill

### HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ewch i ni yn **moneyhelper.org.uk/cy**

Neu cysylltwch â ni drwy:

**Ffôn**

Arweiniad Arian a Phensiynau DU:
**0800 011 3797**
os ydych chi y tu allan i'r DU:
**+44 20 7932 5780**
Llun – Gwe 9am i 5pm

**Ar-lein**

**moneyhelper.org.uk/cy/contact-us**

**Cymunedau ar-lein**

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: **moneyhelper.org.uk/cy/blog/everyday-money/come-and-join-our-online-communities**

### Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Yn rheoleiddio cwmnïau rheoli hawliadau
0800 111 6768
Defnyddiwch Wiriwr Cwmni'r FCA:
**fca.org.uk/firm-checker**

## I ddod o hyd i gyfreithiwr

### Cymdeithas y Gyfraith (Lloegr a Chymru)

**solicitors.lawsociety.org.uk**

### Cymdeithas y Gyfraith Gogledd Iwerddon

**lawsoc-ni.org**

### Cymdeithas y Gyfraith yr Alban

**lawscot.org.uk**

## Cwynion a iawndal

### Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

0800 023 4567
**financial-ombudsman.org.uk**

### Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol

0800 678 1100
**fscs.org.uk**

### Ombwdsmon Cyfreithiol(Lloegr a Chymru)

0300 555 0333
**legalombudsman.org.uk**

### Comisiwn Cwynion Cyfreithiol yr Alban

0131 201 2130
**scottishlegalcomplaints.org.uk**

Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld ein cyfres lawn o ganllawiau ac i archebu copïau ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides**

Cymraeg

## Cysylltu â ni

Arweiniad arian a phensiynau **0800 011 3797**
Llun – Gwe 9am i 5pm

Relay UK **18001 0800 011 3797**
Llun – Gwe 9am i 5pm

Ar-lein **moneyhelper.org.uk/cy/contact-us**

**Helpwr Arian**

MIX
Paper | Supporting responsible forestry
FSC® C003270
FSC www.fsc.org

Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn ni'n recordio neu fonitro galwadau.

**Fformatau hygyrch**
Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2026). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© **HelpwrArian** Ebrill 2026

Cyf: EMC_Apr26_Ed1_Welsh